



Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Ar y cynnig i:

- Newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 4-11 oed i 3-11 oed a sefydlu dosbarth meithrin a hwnnw'n cynnwys 24 o leodd rhan-amser o fis medi 2023



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille. Gellir trefnu hefyd i wybodaeth fod ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 709828 i drefnu hyn.

TABL Y CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	1
2.	Y Cyd-Destun Cenedlaethol	1
3.	Y Cyd-Destun Polisi Lleol	1
4.	Heriau Cyfredol.....	2
5.	Proffil y Gymuned	3
5.1.	Datblygiadau Tai.....	3
6.	Asesiad o'r Effaith.....	4
6.1.	Effeithiau ar y Gymuned Leol	6
7.	Crynodeb Sgorio	12
8.	Casgliadau	12

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sy'n rhan ohonynt, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Ystyrir y cynnig hwn dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir i ysgol, sy'n cynnwys newid ystod oedran ysgol o flwyddyn neu fwy. Mae ysgol newydd â 126 o leoedd gyda 24 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas wedi cael ei chynnwys fel rhan o raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor. Cynigir y byddai staff a disgyblion yn symud i mewn i'r adeilad hwn erbyn mis Medi 2023 i ddarparu'r capasiti gofynnol.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid yw hyn yn ddarostyngedig i'r broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad o fewn 1.609344 o gilometrau (1 filltir).

2. Y CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

Y canllawiau statudol allweddol i awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yw adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni cymunedau yn gyntaf neu raglenni sy'n eu holynu.

3. Y CYD-DESTUN POLISI LLEOL.

Gan adleisio polisi cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2016-20 i wireddu gweledigaeth, sef – **'Cymunedau Cryf â dyfodol disglair'**.

Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig i gyflawni amcan ar gyfer 'Bro Uchelgeisiol' gan godi safonau cyrhaeddiad ar y cyfan trwy foderneiddio addysg yn y Fro i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas ar gyfer y diben sy'n diwallu anghenion addysg yr oes fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl i wneud yn siŵr bod y profiadau gorau ar gael i blant a phobl ifanc a'u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

4. HERIAU CYFREDOL

Byddai'r cynnig i gynyddu capasiti a newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn mynd i'r afael â nifer o heriau.

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach gan ddarparu ar gyfer demograffeg ehangach o ran disgyblion.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb y galw am addysg ffydd yn y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safon "Rhagorol" BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu fel ei fod yn cael A fel sgôr EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).
- Sefydlu uned feithrin sy'n cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy ar gyfer darparu addysg yr 21^{ain} Ganrif sy'n cyrraedd safonau cenedlaethol ar gyfer adeiladau ac yn lleihau costau cylchol ac ôl troed carbon adeiladau addysg.
- Datblygu ethos a diwylliant yr ysgol mewn plant o oedran cynharach, gan arwain at berthnasoedd rhyngbersonol effeithiol a hunan-fri uwch.
- Darparu dull cyson o 3-11 oed i hybu a thanategu parhad a dilyniant ar gyfer disgyblion, gan sicrhau ehangder a chydbwysedd ar draws y cwricwlwm.
- Byddai'r holl waith i gynllunio'r cwricwlwm a darparu adnoddau ar ei gyfer yn adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth flaenorol a phrofiad blaenorol disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb.
- Cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a chymhwyso'u gwytodaeth bynciau yn fwy cadarnhaol a chreadigol ar draws continwwm dysgu.
- Gwellu'r trefniadau sydd eisoes yn dda ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion o oedran cynharach.

- Estyn a datblygu partneriaethau â theuluoedd o'r cyfle cynharaf i gryfhau trefniadau pontio rhwng y cartref a'r ysgol.

5. PROFFIL Y GYMUNED

Ysgol wirfoddol a reolir cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu plant 4 i 11 oed yn Sain Nicolas a Thresimwn yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas. O ran derbyniadau, ceir 18 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn gyda chyfanswm capasiti o 126 o ddisgyblion. Nid oes gan yr ysgol ddarpariaeth feithrin ar hyn o bryd.

Pentref yng Ngorllewin y Fro, yn Ward Gwenfô, yw Sain Nicolas. Yn ôl data cyfrifiad 2011, mae gan Ward Gwenfô boblogaeth o 2,659 gydag oedran cymedrig o 46. Mae 69% o'r boblogaeth yn economaidd weithgar ac mae amddifadedd yn isel. Mae 69% o'r boblogaeth yn dynodi mai Cristnogion ydynt.

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, mae Gwenfô 1 yn safle rhif 1664 allan o 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50% o ardaloedd lleiaf amddifadus. Fodd bynnag, mae Gwenfô ymhlith y 20-30% o ACEHI mwyaf amddifadus ar gyfer mynediad at wasanaethau. Gallai hyn gael ei wella gan y cynnig hwn gyda mwy o fynediad a chyfleusterau cymunedol.

5.1. DATBLYGIADAU TAI

Mae nifer o ddatblygiadau tai ar raddfa fawr yn yr arfaeth ar gyfer ardal Bro Morgannwg. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 117 o anheddau i'r dwyrain o Sain Nicolas a 120 o anheddau i'r dwyrain o Dresimwn. Mae'r datblygiadau tai hyn wedi'u lleoli yn nalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas.

Caiff nifer rhagamcanol y disgyblion sy'n deillio o ddatblygiad ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla sy'n deillio o ddata'r cyfrifiad ynghylch deiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae'r fformiwla wedi'i gynnwys yng Nghanllawiau Atodol y Cyngor at ddibenion cynllunio.

Rhagamcanir y bydd tua 24 o ddisgyblion meithrin a 66 o ddisgyblion cynradd yn deillio o'r datblygiad ar y cyfan.

6. ASESIAID O'R EFFAITH

Mae'r adran hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Ciplun o'r sefyllfa bresennol yw'r wybodaeth a ddadansoddir yn y broses hon. Mae'r asesiad o'r effaith yn ddogfen sy'n esblygu ac a fydd yn parhau i gael ei datblygu trwy gydol y prosiect. Bydd adborth a geir yn ystod y broses ymgynghori'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth bellach ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.

Mae wyth mesur allweddol wedi cael eu hadnabod:

Cyf.	Mesur
EG1	Mae plant sy'n byw yn y dalgyloch yn mynychu eu hysgol leol
EG2	Gwasanaethau'n cael eu darparu gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol
EG3	Cyfleusterau cymunedol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan yr ysgol
EG4	Cyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu gan a gweithgarwch cymunedol yn cael ei gynnal o fewn safle'r ysgol
EG5	Effaith ar fusnesau lleol
EG6	Effaith ar gyflogaeth leol
EG7	Effaith ar seilwaith lleol
EG8	Trefniadau cludiant

Aseswyd yr wyth mesur i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol, ac fe gymhwyswyd sgôr a oedd yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth a oedd ar gael.

Sgôr y Mesur	Asesiad o'r Mesur
-3	Dirywiad mawr
-2	Dirywiad cymedrol
-1	Dirywiad bach
0	Dim newid ar y cyfan
1	Gwelliant bach
2	Gwelliant cymedrol
3	Gwelliant mawr

6.1. EFFEITHIAU AR Y GYMUNED LEOL

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Trosglwyddiad Arfaethedig
EG1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol	2	<p>Mae datblygiadau tai diweddar wedi arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yng Ngorllewin y Fro. O fewn dalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas mae dau ddatblygiad mawr sy'n gyfanswm o 237 o anheddau. Mae'r amcanestyniadau'n dynodi na fyddai Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn gallu ateb y galw uwch hwn. Byddai cynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas erbyn mis Medi 2023 yn galluogi'r ysgol i ateb y galw oddi mewn i'r dalgylch a ragamcanir yn y dyfodol.</p> <p>Yn draddodiadol, mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas wedi denu nifer fawr o ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch. Mae amcanestyniadau'n dynodi y bydd y galw oddi mewn i'r dalgylch yn cynyddu oherwydd y datblygiadau tai'n ddiweddar ac yn y dyfodol.</p> <p>Byddai ychwanegu darpariaeth feithrin yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu diwallu anghenion y gymuned lleol yn well.</p> <p>Mae'r holl drefniadau o ran dalgylchoedd ac ysgolion sy'n bwydo ei gilydd ym Mro Morgannwg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fe gynhaliwyd adolygiad eang yn</p>

			ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Ni wnaed unrhyw newidiadau i ddalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas ond ym mis Medi 2020 cafodd trefniadau ysgolion sy'n bwydo'i gilydd ar gyfer Ysgolion Cynradd ym Mro Morgannwg eu tynnu'n ôl.
EG2	Gwasanaethau'n cael eu darparu gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol	2	<p>Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn cynnig clwb brechwast ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r clwb brechwast ar gael o 7:50am tan 8:40am.</p> <p>Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas hefyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau Celf, chwaraeon, papur newydd, cerddoriaeth ac eco.</p> <p>Y bwriad yw y byddai'r holl wasanaethau presennol ar gyfer plant, rhieni a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n debygol o arwain at alw uwch am wasanaethau'r ysgol, yn ogystal â darparu'r cyfle i ehangu nifer y gwasanaethau a gynigir.</p>

			<p>Mae'r cynnig yn rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys creu cyfleusterau tra modern newydd ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif. Elfen allweddol o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yw darparu cyfleusterau cymunedol.</p>
EG3	Cyfleusterau cymunedol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan yr ysgol	2	<p>Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn darparu addysg ar draws dau safle gyda'r dosbarth derbyn yn cael eu haddysg yn adeilad cyfagos yr 'Hen Ysgol'. Mae'r ysgol mewn trafodaethau gyda'r esgobaeth ar hyn o bryd ynglŷn â defnyddio'r adeilad hwn ar gyfer defnydd cymunedol gan na fyddai ei angen ar yr ysgol pan fyddai adeilad newydd yr ysgol yn agor.</p> <p>Nid yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn defnyddio unrhyw gyfleusterau lleol eraill.</p>
EG4	Cyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu gan a gweithgarwch cymunedol yn cael ei gynnal o fewn safle'r ysgol	3	<p>Nid yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn cynnig unrhyw osodiadau na chyfleusterau ar gyfer defnydd cymunedol ar hyn o bryd. Y rheswm dros hyn yw'r cyfyngiadau gyda safle presennol yr ysgol.</p> <p>Un o nodau allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yw sicrhau bod cyfleusterau ysgolion yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned leol.</p> <p>Byddai aelodau'r gymuned leol yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses o ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol i sicrhau bod</p>

			<p>gwasanaethau'n diwallu anghenion y gymuned a gwella'r cyfleusterau sydd ar gael.</p> <p>Byddai ychwanegu darpariaeth feithrin a symud yr ysgol i adeilad newydd yn arwain at gyfleusterau gwell i'r gymuned eu defnyddio.</p>
EG5	Effaith ar fusnesau lleol	0	Nid oes gan yr ysgol gysylltiadau agos ag unrhyw fusnesau lleol ac nid yw'n cefnogi unrhyw fusnesau lleol.
EG6	Effaith ar gyflogaeth leol	3	<p>Byddai'r holl staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad trosglwyddo yn trosglwyddo'n awtomatig i safle newydd yr ysgol heb unrhyw newid i'w telerau ac amodau cyflogaeth.</p> <p>Gan y byddai'r ysgol yn ychwanegu 24 o leoedd meithrin rhan-amser, byddai angen staff ychwanegol. Byddai hyn yn cynnwys swyddi staff addysgu a staff cymorth.</p>
EG7	Effaith ar seilwaith lleol	-1	Ceir mynediad i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas ar hyd ffordd fynediad gul. Nid oes rhyw lawer o le i barcio o amgylch yr ysgol sy'n achosi tagfeydd yn ystod amseroedd danfon a chasglu disgyblion. Mae'n debygol y byddai ychwanegu lleoedd meithrin yn yr ysgol yn arwain at fwy o geir a allai arwain at fwy o dagfeydd. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i bennu'r

			<p>trefniadau ar gyfer danfon a chasglu disgyblion. Gallai gweithgareddau allgyrsiol ychwanegol, megis clybiau ar ôl ysgol, fod o gymorth i leihau tagfeydd ar amseroedd casglu disgyblion. Mae'r cynlluniau arfaethedig hefyd yn cynnwys ardal barcio fwy a man newydd ar gyfer danfon a chasglu disgyblion o fewn safle'r ysgol i gael gwared ar dagfeydd o'r ffyrdd dynesu sy'n arwain at yr ysgol ym mhentref Sain Nicolas.</p> <p>Byddai goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith. Byddai hyn yn sicrhau bod goblygiadau o ran trafndiaeth yn cael eu hystyried wrth ddylunio'r ysgol newydd.</p>
EG8	Trefniadau cludiant	0	<p>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf.¹</p> <p><i>"Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellterau eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."</i>²</p>

¹Polisi Ar Gyfer Darparu Cludiant O'r Cartref I'r Ysgol (Diwygiwyd ym mis Chwefror 2010)

²Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

		<p>Nid oes gan yr ysgol unrhyw ddisgyblion ar hyn o bryd sydd â hawl i gludiant am ddim i'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn darparu gwasanaeth bws mini am dâl ar gyfer rhieni.</p> <p>Ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar drefniadau presennol o ran teithio gan ddysgwyr gan y byddai'r ysgol yn aros ar y safle presennol a chan na fyddai unrhyw newid i'r dalgylch.</p> <p>Efallai y bydd goblygiadau o ran traffig o ganlyniad i gapasiti uwch yr ysgol. Byddai goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith.</p>
--	--	---

7. CRYNODEB SGORIO

Cyf.	Y Gymuned Leol
EG1	2
EG2	2
EG3	2
EG4	3
EG5	0
EG6	3
EG7	-1
EG8	0
Sgôr Cyfartalog	1.375

8. CASGLIADAU

Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol ar draws 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 5 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned leol mewn 1 o'r 8 mesur. Ar y cyfan, mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r ysgol i barhau â'i llwyddiant gan ddarparu ar gyfer poblogaeth fwy o ran disgyblion, yn ogystal ag ystod oedran ehangach. Byddai'n darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fyddai'n herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.

Byddai'r cynnig yn cynnal ac yn cynyddu'r lefel o fynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Byddai'r ysgol yn darparu dull cyson o 3-11 oed a fyddai'n hybu ac yn tanategu parhad a dilyniant ar gyfer disgyblion, gan sicrhau ehangder a chydbwysedd ar draws y cwricwlwm.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau i ddisgyblion y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol. Cynigir fel lleiafswm y byddai'r holl gyfleusterau presennol ar gyfer rhieni'r disgyblion a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.

Byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i oblygiadau o ran trafndiaeth wrth ddylunio'r ysgol newydd er mwyn cyfyngu ar effaith y cynnydd yn nifer y disgyblion a fydd yn teithio i'r ysgol.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol a newid ystod oedran Sain Nicolas yn diwallu anghenion y gymuned leol yn well i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt.